



CANLLAWIAU CCYSAGauC AR DYNNU DISGYBLION YN ÔL O ADDOLI AR Y CYD

Wedi'i ymgorffori yn Neddf Addysg 1944, ac ym mhob Deddf Addysg ers hynny, y mae'r gofyniad fod yn rhaid i bob ysgol ddarparu gweithred Addoli ar y Cyd bob dydd lle mae pob disgyl o dan 16 yn cymryd rhan. Dylai'r Weithred honno o Addoli ar y Cyd fod yn Gristnogol ei natur gan mwyaf oni bo dyfarniad gan y CYSAG lleol wedi darparu fel arall. ((1) *Yn amodol ar adran 71, rhaid i bob disgyl sy'n mynchu ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol ar bob diwrnod ysgol gymryd rhan mewn gweithred o addoli ar y cyd - Fframwaith Safonau Ysgol 1998, adran 70*). Yr unig eithriad i'r gofyniad hwn yw pan mae rhiant/rhieni disgyl o dan 16 wedi gofyn mewn ysgrifen i'w plentyn gael ei dynnu'n ôl o weithred yr ysgol o addoli ar y cyd, ac mae'n rhaid i'r ysgol gydymffurfio â chais o'r fath. Gwnaed y ddarpariaeth i ddisgyblion ôl-16 mewn ysgolion gael eu tynnu eu hunain allan o Addoli ar y Cyd gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 a daeth y ddeddfwriaeth hon i rym yng Nghymru ym mis Chwefror 2009. Ar yr adeg honno, rhoddodd CCYSAGauC, mewn cydweithrediad ag APADGOS, gyngor i ysgolion uwchradd ar y ffordd orau o reoli'r ddarpariaeth hon. Dosbarthwyd papur *Canllawiau i ysgolion mewn cysylltiad â'r newidiadau i ddeddfwriaeth i Addoli ar y Cyd Ôl-16* yn ystod y newid.

Dylid nodi nad yw'r term "gwasanaeth" fyth yn cael ei ddefnyddio yng ngeiriad y Ddeddf Addysg, yn hytrach y term a ddefnyddir yw "addoli ar y cyd" sy'n cael ei weld fel rhan o gwricwlwm cytbwys ac eang pob ysgol.

Ym mis Mehefin 2012, cynhyrchwyd a dosbarthwyd papur pellach gan CCYSAGauC ar Addoli ar y Cyd, *Canllawiau ar Addoli ar y Cyd*. Roedd y papur hwn yn egluro manteision addoli ar y cyd ac yn rhoi canllawiau ar yr hyn mae'r gyfraith yn ei ddweud mewn gwirionedd am addoli ar y cyd mewn ysgolion a gynhelir heb gymeriad crefyddol yn ogystal ag ysgolion a gynhelir sydd â chymeriad crefyddol. Roedd y papur hefyd yn egluro beth na ddywedir gan y ddeddf am addoli ar y cyd, mewn ymgais i ddatrys unrhyw gamsyniadau am ofynion addoli ar y cyd.

Hawl rhieni i dynnu disgylion yn ôl o Addoli ar y Cyd

Nid oes unrhyw beth yn Neddf Addysg 1993 yn effeithio ar hawliau rhieni, fel y'u sefydlwyd yn Neddf 1944 a'u hailddeddfu yn Neddf 1988, i dynnu eu plant allan o Addoli ar y Cyd os ydynt yn dymuno hynny.

os yw'r rhiant yn gofyn i ddisgybl gael ei esgusodi'n llwyr neu'n rhannol o fynychu unrhyw addoliad crefyddol mewn ysgol, yna mae'n rhaid i'r ysgol gydymffurfio. Mae hyn yn cynnwys addoliad amgen a ddarperir gan yr ysgol o ganlyniad i ddyfarniad gan GYSAG; (Deddf Diwygio Addysg 1998a.9 (1))

lle mae rhiant unrhyw ddisgybl sy'n preswylio mewn ysgol a gynhelir yn gofyn i'r disgylion gael caniatâd i fynychu addoliad yn unol â daliadau enwad crefyddol arbennig ar ddydd Sul neu ddydd sanctaidd arall, neu i gael addysg grefyddol yn unol â daliadau o'r fath y tu allan i oriau ysgol, rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol wneud trefniadau i ganiatáu cyfleoedd rhesymol i'r disgylion wneud hynny. Gellir darparu at gyfer y trefniadau hyn ar dir yr ysgol, ond ni ddylent olygu gwariant gan yr AAll neu, yn achos ysgol a gynhelir â grant, ei gorff llywodraethu; (Deddf Diwygio Addysg 1998 a.9 (3))

Mae Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd (Cylchlythyr 10/94) yn egluro goblygiadau hawl y rheini i dynnu eu plant yn ôl:

Deddf Diwygio Addysg 1988 a.9 (7) a.9 (8)

- ✓ Mae ysgol yn parhau i fod yn gyfrifol am oruchwyllo unrhyw blentyn a dynnwyd yn ôl gan ei riant o addoli ar y cyd.
- ✓ Dylai hawl rhiant i dynnu plentyn yn ôl o fynychu addoli ar y cyd gael ei arfer yn hawdd a rhaid i ysgol gydsynio â chais o'r fath. Nid oes rhwymedigaeth ar rieni i roi eu rhesymau dros ofyn am dynnu'n ôl.
- ✓ Byddai'r hawl i dynnu'n ôl o addoli ar y cyd yn cael ei arfer fel rheol drwy dynnu'r plentyn yn gorfforol o'r man lle mae'r addoliad yn digwydd. Yn wir gallai'r ysgol fynnu mai dyma'r ffordd o weithredu'r hawl. Fodd bynnag, os yw'r ysgol a'r rhiant yn cytuno y dylid gadael i'r disgybl aros yn gorfforol bresennol yn ystod yr addoliad ond heb gymryd rhan ynddo, nid oes dim yn y gyfraith sy'n atal hyn.
- ✓ Mae profiad yn awgrymu, er mwyn osgoi camddealltwriaeth, y gallai fod o gymorth i bennaeth drafod gydag unrhyw riant sy'n dymuno arfer eu hawl i dynnu'n ôl:
 - elfennau'r addoliad y byddai'r rhiant yn gwrthwynebu i'r plentyn gymryd rhan ynddynt;
 - goblygiadau ymarferol tynnu'n ôl; ac
 - a fyddai'r rhiant angen unrhyw rybudd ymlaen llaw am AG ac addoliad, ac os felly, faint.

Er nad yw'n ofyniad yn y gyfraith fe'i hystyrir yn arfer da tynnu sylw rhieni at eu hawl i dynnu eu plentyn yn ôl o addoli ar y cyd fel y darparwyd ar ei gyfer yn y Deddfau Addysg. Mae CCYSAGauC yn argymhell fod yr wybodaeth hon yn cael ei rhoi ym mhrosbectws yr ysgol, ac yn argymhell ymhellach fod CYSAGau lleol yn cymryd cyfrifoldeb dros gynghori ysgolion yn eu hawdurdod lleol ar y mater hwn os yw'n dod i'w sylw nad oes gwybodaeth o'r fath ym mhrosbectws ysgol neu ar gael yn amlwg drwy ddulliau eraill, e.e. gwefan yr ysgol.

Addoliad amgen i ddisgyblion a dynnwyd yn ôl

Nid oes dim yn y ddeddfwriaeth sy'n atal unrhyw ysgol a gynhelir rhag caniatáu, ar gais y rhieni sydd wedi tynnu disgyblion o'r ddarpariaeth statudol, i addoliad crefyddol ddigwydd yn ôl ffydd neu enwad arbennig. Dylai cyrff llywodraethu a phenaethiaid geisio ymateb yn gadarnhaol i geisiadau fel hyn gan rieni: (1) oni bai mai'r effaith fyddai fod addoliad enwadol yn dod yn lle'r addoli ar y cyd anenwadol statudol; (2) cyn belled ag y gellir gwneud trefniadau o'r fath heb gost ychwanegol i'r ysgol; a (3) cyn belled ag y byddai'r ddarpariaeth amgen yn unol â dibenion cyffredinol cwricwlwm yr ysgol a osodwyd yn adran 1 o Ddeddf 1998. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.9 (7) a.9 (8))

Tynnu'n ôl o Addoli ar y Cyd heblaw ar gais y rhieni.

Daeth i sylw CYSAGau lleol, a thrwyddyt hwy i CCYSAGauC, fod nifer o ysgolion yn defnyddio amser Addoli ar y Cyd i dynnu disgyblion allan i roi hyfforddiant ychwanegol iddyn nhw mewn pynciau amrywiol. Gyda mwy a mwy o bwysau ar amserleni mewn ysgolion mae'n ddealladwy y bydd llawer o ysgolion yn gweld yr amser hwn yn gyfle delfrydol i roi gwersi cefnogol i ddisgyblion. Er y gall ymddangos yn amser delfrydol i roi gwersi gwerthfawr, dylai ysgolion fod yn ymwybodol fod yr arfer hwn yn anghyfreithlon mewn gwirionedd. Hawl pob plentyn o dan 16 oed yw mynchyu gweithred ddyddiol yr ysgol o Addoli ar y Cyd, ac mae'n ofynnol ar iddynt wneud hynny oni bo'r plentyn yn cael ei dynnu'n ôl ar gais penodol y rhieni/gwarcheidwaid. O dan ddarpariaethau'r Deddfau Addysg ni all fod rheswm arall dros dynnu plentyn yn ôl o'r weithred ddyddiol ofynnol o Addoli ar y Cyd.

O dan Fframwaith Arolygu Estyn, nid yw Arolygwyr yn gorfod gwneud sylwadau am ddarpariaeth nac ansawdd Addoli ar y Cyd. Fodd bynnag, pan mae Arolygwyr yn gweld fod yr ysgol sy'n cael ei harolygu yn tynnu disgyblion allan o Addoli ar y Cyd, heblaw ar gais y rhieni, yna bydd gofyn i'r Arolygydd ystyried a yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol. Os credir nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion hynny gellir nodi hyn yn nhestun yr adroddiad *a gall arwain at farn ddim uwch na digonol i'r dangosydd ansawdd perthnasol* (*t10 Arweiniad ar gyfer Arolygu Ysgolion Cynradd / Uwchradd*).

Diweddarwyd 2016) ac Arweiniad Atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (Hydref 2017).
Byddai barnau fel hyn yn cael eu hystyried fel rhan o MA 4.2.

Diweddarwyd yr arweiniad atodol hwn ymhellach ym mis Ebrill 2018. Mae hwn yn ailddatgan fod Estyn yn gofyn i dimau arolygu ystyried y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion a gweithredoedd dyddiol o Addoli ar y Cyd. Rhaid i dimau arolygu ystyried yr agweddau hyn ar bob arolygiad ac mae pob adroddiad yn debygol o gynnwys rhyw faint o sylwadau ar yr agweddau hyn ar ddatblygiad disgyblon. Fodd bynnag ni ddisgwylir y bydd arolygwyr yn adrodd ar agweddau o'r fath yn ôl fformiwlau. Mae'n rhaid i bob tîm arolygu bwysa a mesur arwyddocâd unrhyw gryfderau a gwendidau ym mhob maes arolygu. Er nad oes disgwyll adrodd fel mater o drefn ar a yw ysgol yn bodloni'r ddyletswydd statudol i ddarparu gweithred dyddiol o addoli ar y cyd, byddai disgwyll gweld sylwadau yn yr adroddiad os canfuwyd fod ysgol yn torri ei dyletswydd statudol. Mae'r diweddariad yn parhau *Fodd bynnag, efallai nad effeithir ar y farn ar gyfer MA4 os na fodlonir y ddyletswydd statudol. Mae hyn yn rhywbeth i'r tîm ei ystyried. Bydd angen i'r tîm bwysa a mesur nifer o ffactorau ym mhob achos penodol, er engraffit nifer y disgyblion y mae'n effeithio arnynt, a bydd rhaid i'r tîm benderfynu p'un a yw hyn yn arwyddocaol ai peidio, a ph'un a ddylai effeithio ar y farn gyffredinol ar gyfer MA4. Ni waeth p'un a fydd arolygwyr yn penderfynu adrodd ar addoli ar y cyd ai peidio, rhaid iddynt bob amser adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.*

Dylai'r CYSAG lleol, ynghyd â CCYSAgauC, er eu bod yn deall y rhesymau pam fod disgyblion yn cael eu tynnu o Addoli ar y Cyd weithiau, ar wahân i ar gais rhieni, dynnu sylw at oblygiadau hyn yn y gobaith fod llai o dynnu'n ôl fel hyn yn digwydd. Yn ddelfrydol dylent ddod i ben yn llwyr a dylid rhoi'r gwensi cefnogaeth ychwanegol ar adeg heblaw yn ystod Addoli ar y Cyd.

Gellir gweld y ddeddfwriaeth gyfredol yn Fframwaith Safonau Ysgol 1998, adran 70 ac yng nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig *Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd* (Cylchlythyr 10/94).

Addoli ar y Cyd i Ddisgyblion Ôl-16

Yn 2009 gwelwyd newid yn y gyfraith oedd yn caniatau i ddisgyblion ôl-16 mewn ysgolion a gynhelir benderfynu drostynt eu hunain a oeddent yn dymuno cymryd rhan mewn addoli ar y cyd ai peidio. Roedd y newid hwn yn gadael i ysgolion gydnabod annibyniaeth gynyddol y dysgwyr ôl-16. Ar yr adeg honno paratowyd a dosbarthwyd gan CCYSAgauC *Canllawiau i ysgolion mewn cysylltiad â'r newidiadau i ddeddfwriaeth i Addoli ar y Cyd Ôl-16*. Yn y ddogfen honno ceisiwyd annog ysgolion i alluogi disgyblion ôl-16 i werthfawrogi beth yw diben addoli ar y cyd ac i wneud penderfyniadau cytbwys a chadarn, yn hytrach na rhai emosiynol ac arwynebol yn unig.

Mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu gweithredoedd addoli ar y cyd dyddiol i bob disgybl yn yr ysgol, yn cynnwys rhai ôl-16. Fodd bynnag, gall disgyblion ôl-16 wneud cais am gael eu hesgusodi o addoli ar y cyd a dylai ysgolion sicrhau fod y disgyblion yn ymwybodol o hyn. Mae'n bwysig sylweddoli nad yw cael yr hawl i dynnu'n ôl yn golygu fod angen i ddisgyblion dynnu'n ôl o addoli ar y cyd - mae'n golygu'n unig y gallan nhw wneud hynny os ydynt yn teimlo fod ganddynt reswm dros wneud. Ni ddylai ysgolion gymryd yn ganiataol fod disgyblion chweched dosbarth yn dymuno cael eu hesgusodi o addoli ar y cyd ac felly mae angen cais gan y disgybl ei hun i optio allan. Nid oes raid i'r cais fod mewn ysgrifen, ond dylai ysgolion gadw cofnod diwedd o geisiadau o'r fath gan ddisgyblion.
(Estyn 2017)

Y peth pwysig i'w nodi o safbwyt y newid hwn mewn trefniadau ôl-16 yw bod y gofyniad statudol ar i ysgolion ddarparu gweithred dyddiol o addoli ar y cyd i bob disgybl yn aros yr un peth. Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion gael eu tynnu'n ôl o addoli ar y cyd, ar gais y rhieni, yn ei le fel y bu ers Deddf Addysg 1944. Yr agwedd newydd yn y newid hwn yn y ddeddfwriaeth yw y gall disgyblion ôl-16 ofyn am gael tynnu'n ôl o addoli ar y cyd drostynt eu hunain. Yn olaf, dylid nod fod y newid hwn

yn ymwneud ag addoli ar y cyd yn unig. Mae'r gofyniad statudol fod pob disgyl mewn lleoliadau a reolir o dan reoliadau ysgol yn derbyn Addysg Grefyddol, yn aros yr un fath.

Er mwyn hwylustod, mae'r ddau bapur a gynhyrchwyd yn flaenorol gan CCYSAGauC ac y cyfeirir atynt yn y papur hwn, wedi'u hatodi.



CANLLAWIAU AR ADDOLI AR Y CYD

CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU

Mehefin 2012

CYFLWYNIAD

Mae addoli ar y cyd fel ysgol yn addysgiadol ac ystyrlon pan mae'n cynnig cyfleoedd i roi sylw i anghenion pob dysgwr, beth bynnag eu ffydd neu eu cefndir cred. Mae addoli ar y cyd da yn hybu datblygiad ysbrydol, yn cyfrannu at ddatblygiad personol, mae o fudd i'r gymuned ysgol gyfan, yn cysylltu'r gymuned ysgol â'r gymuned leol ehangach, ac yn cyfoethogi ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

Dyma rai ffactorau sy'n sail i addoli ar y cyd effeithiol:

- datblygu polisi ysgol ac agwedd gydlynol at addoli ar y cyd, gyda'r uwch reolwyr yn cymryd rhan weithredol;
- creu 'perchnogaeth' dorfol ar raglen addoli ar y cyd yr ysgol ar ran y staff, y dysgwyr a'r llywodraethwyr;
- sicrhau fod disgwyliadau clir gan y staff yngylch eu cyfraniadau at addoli ar y cyd;
- cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan weithredol mewn addoli ar y cyd;
- gwneud addoli ar y cyd yn rhan annatod o'r diwrnod ysgol drwy adlewyrchu ei berthnasedd a'i gysylltiadau â phob agwedd o fywyd ysgol, wrth gynllunio;
- cynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i staff a fydd yn caniatáu meddwl yn feirniadol am y ddarpariaeth addoli ar y cyd yn yr ysgol a gwella arni.

Er mwyn datblygu addoli ar y cyd effeithiol sy'n addysgiadol ac ystyrlon, mae'n bwysig sylweddoli manteision addoli ar y cyd a bod yn gyfarwydd â'r gofynion cyfreithiol sydd ynghlwm wrtho¹.

SYLWEDDOLI MANTEISION ADDOLI AR Y CYD

Byddai'n ddefnyddiol i ysgolion drafod sut mae addoli ar y cyd yn hybu datblygiad ysbrydol, yn cyfrannu at ddatblygiad personol, o fudd i'r gymuned ysgol gyfan, yn cysylltu'r gymuned ysgol â'r gymuned leol ehangach, ac yn cyfoethogi ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

(a) Addoli ar y cyd yn hybu datblygiad ysbrydol

Mae gan ysgolion ddyletswydd i hybu datblygiad ysbrydol dysgwyr. Mae addoli ar y cyd effeithiol yn galluogi ysgol i gyfrannu at y gofyniad statudol hwn. Mae'n bwysig deall nad yw datblygiad ysbrydol neu ysbrydolrwydd yr un peth â bod yn grefyddol, yn hytrach mae'n ymwneud â'r broses o ddatblygu gwerthfawrogiad y dysgwyr o agweddau ysbrydol bywyd a

¹ Deddf Diwygio Addysg 1988, Rhan 1 (2)(a)(bb); Deddf Diwygio Addysg 2002, Adran 99 (1)(a)(bb)

materion ehangach ystyr, pwrpas a chyflawniad. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi fod gweithredoedd addoli ar y cyd yn:

- darparu amser arbennig i ffwrdd o weithgareddau ysgol arferol;
- cefnogi profiadau sy'n canolbwytio ar y dysgwr, ac yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o'u safle o fewn y darlun mawr;
- datblygu gallu'r dysgwyr i fyfrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau;
- datblygu ymwybyddiaeth y dysgwyr o'r bywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- archwilio ac annog ymatebion i gwestiynau sylfaenol am ystyr bywyd, newid a marwolaeth.

(b) Addoli ar y cyd yn cyfrannu at ddatblygiad personol

Mae'n ddyletswydd ar ysgolion hybu datblygiad personol dysgwyr. Mae addoli ar y cyd effeithiol yn galluogi ysgol i gyfrannu at y gofyniad statudol hwn². Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi fod addoli ar y cyd yn:

- cyfrannu at iechyd a chyflawnder, a deallusrwydd emosiynol
- annog myfyrio ar deimladau a chredoau mewnol;
- datblygu credoau a gwerthoedd, rhai personol a chyfunol;
- annog dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill;
- cynyddu hunan-barch a phwrpas mewn bywyd;
- meithrin y gallu sydd gan fodau dynol i wneud dewisiadau moesol da neu ddrwg, drwy feddwl am 'godau moesol, perthnasoedd, cyfrifoldeb, parchu amrywiaeth, temtasiwn, pŵer hunanaberth a chariad'.³

(a) Addoli ar y cyd er budd yr ysgol gyfan

Mae addoli ar y cyd effeithiol yn fuddiol i'r gymuned ysgol gyfan. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi fod gweithredoedd o addoli ar y cyd yn:

- annog gwerthoedd, ystyr a phwrpas cyffredin;
- cyfrannu at y profiad o berthyn i gymuned;
- cynnig cyfleoedd i ddathlu cyflawniadau'r ysgol a chyfraniad unigolion i'r cyflawniadau hynny;
- datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gredoau a gwerthoedd eraill o fewn y gymuned ysgol;
- cynnig cyfleoedd i fyfrio a rhannu yn y digwyddiadau a'r profiadau 'hapus' a 'thrist' sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol;
- cyfrannu at ethos ysgol sy'n cefnogi cyflawniad addysgol pob dysgwr, waeth beth fo'u cefndir, drwy ddatblygu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd.

(b) Addoli ar y cyd yn cysylltu cymuned yr ysgol â'r gymuned leol ehangach

Disgwylir i ysgolion ystyried sut maent yn cefnogi ac yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, a dylid sylweddoli fod addoli ar y cyd yn cynnig cyfraniad gwerthfawr ar lefel yr ysgol a lefel y

² Deddf Diwygio Addysg 1988, Rhan 1 (2)(a)(bb); Deddf Diwygio Addysg 2002, Adran 99 (1)(a)(bb)

³ Fframwaith Cenedlaethol Enghreifftiol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru 2008, t10.

gymuned ehangach. Mae addoli ar y cyd effeithiol yn gwneud cysylltiadau rhwng cymuned yr ysgol a'r gymuned leol ehangach. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi fod addoli ar y cyd yn:

- manteisio ar ystod o gynrychiolwyr addas a ddewiswyd yn ofalus o fewn y gymuned leol i gyfrannu at addoli ar y cyd;
- cyfrannu at y profiad o berthyn i gymuned leol ehangach;
- cynnig cyfleoedd i ddathlu cyflawniadau'r gymuned leol a chyfraniad grwpiau ac unigolion i'r cyflawniadau hynny;
- datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gredoau a gwerthoedd pobl eraill o fewn y gymuned leol;
- cefnogi dealltwriaeth gyffredin o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach;
- darparu cyfleoedd i fyfyrion a rhannu yn y digwyddiadau a'r profiadau 'hapus' a 'thrist' sy'n effeithio ar y gymuned leol.

(c) Addoli ar y cyd yn cyfoethogi ymwybyddiaeth o ddinas yddiaeth fyd-eang

Mae addoli ar y cyd effeithiol yn cyfoethogi ymwybyddiaeth o ddinas yddiaeth fyd-eang. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi fod gweithredoedd o addoli ar y cyd yn:

- tynnu ar ystod o ddeunydd a ddewiswyd yn ofalus i hybu ymwybyddiaeth fyd-eang;
- cyfrannu at y profiad o berthyn i gymuned fyd-eang;
- cynnig cyfleoedd i ddathlu digwyddiadau byd-eang a chyflawniadau pobl;
- datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang;
- cynnig cyfleoedd i fyfyrion ar a rhannu mewn argyfngau byd-eang a dioddefaint dynol.

Mae gan yr ysgol gyfan lawer i'w elwa ar weithredoedd addoli ar y cyd addysgiadol ac ystyrlon effeithiol, ac mae gan aelodau'r ysgol (a'r gymuned leol) lawer i'w gynnig drwy wneud cyflwyniadau a chyfrannu at weithredoedd o addoli ar y cyd. Yn ymarferol, dylai ysgolion ystyried sut y gellir ymgorffori'r manteision hyn yn eu rhaglen ar gyfer addoli ar y cyd fel eu bod ym 'mherchnogaeth' y gymuned ysgol gyfan.

ADDOLI AR Y CYD A'R GYFRAITH

Mae'r gyfraith yn gwahaniaethu rhwng 'ysgolion sydd â chymeriad crefyddol' ac ysgolion eraill heb gymeriad crefyddol (Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988). 'Ysgolion sydd â chymeriad crefyddol' yw'r rheiny sy'n gysylltiedig ag un neu fwy o enwadau Cristnogol neu un o brif grefyddau'r byd yn rhinwedd eu sefydlu neu gan benderfyniad cyfreithiol penodol i ddod yn ysgol o'r fath. Mae AdAS yn cadw rhestr o'r ysgolion o'r fath yng Nghymru.

(a) Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud mewn gwirionedd am ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth sydd HEB gymeriad crefyddol

- Mae gofyniad statudol ar ysgolion i ddarparu gweithred **ddyddiol** o addoli ar y cyd i bob dysgwr;
- Mae'r gofyniad hwn i **bob dysgwr** gael cyfle i gymryd rhan mewn gweithred o addoli ar y cyd **bob dydd**;
- Ceir darpariaeth i ddysgwyr gael eu tynnu'n ôl o addoli ar y cyd, ar gais rhieni;
- Ceir darpariaeth hefyd i athrawon dynnu'n ôl o gynnal gweithredoedd o addoli ar y cyd;
- Dylai mwyafrif y gweithredoedd o addoli ar y cyd mewn tymor a blwyddyn ysgol fod 'yn gyfan gwbl, yn bennaf o natur Gristnogol eang', ac mewn ysgolion a gynhelir, nid o un enwad yn unig;
- Dylai mwyafrif y gweithredoedd o addoli ar y cyd gynnwys elfennau sy'n gysylltiedig â thraddodiadau'r ffydd Gristnogol;
- Dylai addoli mewn cyd-destun ysgol fod 'ar y cyd' yn hytrach na 'chorfforaethol'⁴
- Ni ddylai gweithredoedd o addoli ar y cyd fod yn cael eu derbyn yn oddefol - mae angen ymateb;
- I ysgolion a gynhelir, mae'n rhaid i addoli ar y cyd ddigwydd yn adeilad yr ysgol;
- Mae gan ysgolion yr hawl i 'Ddyfarniad' - hynny yw, i gael eu rhyddhau o'r gofynion fod gweithredoedd addoli o gymeriad Cristnogol yn gyfan gwbl neu'n bennaf, os yw cyfansoddiad yr ysgol yn mynnu hyn (ceisiadau i'w gwneud i'r CYSAG lleol);
- Mae gweithredoedd o addoliad yn wahanol i 'gyfarfod boreol' neu '*assembly*' - sef, yn ôl y gyfraith, unrhyw bryd mae'r ysgol yn cyd-gasglu **ar wahân i** addoli ar y cyd;
- Ers Ionawr 2009, gal dysgwyr ôl-16 ofyn am gael tynnu'n ôl o addoli ar y cyd drostynt eu hunain.⁵

(a) Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud mewn gwirionedd am ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth sydd â chymeriad crefyddol

- Mae gofyniad statudol ar ysgolion i ddarpau gweithred **ddyddiol** o addoli ar y cyd i bob dysgwr;
- Mae'r gofyniad hwn i **bob dysgwr** gael cyfle i gymryd rhan mewn gweithred o addoli ar y cyd **bob dydd**;
- Ceir darpariaeth i ddysgwyr gael eu tynnu'n ôl o addoli ar y cyd, ar gais rhieni;
- Ceir darpariaeth hefyd i athrawon dynnu'n ôl o gynnal gweithredoedd o addoli ar y cyd; fod bynnag, mae rhai cyfyngiadau ar yr hawl yma mewn Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir;
- Dylai'r gweithredoedd o addoli adlewyrchu cymeriad crefyddol yr ysgol;
- Mae'r gweithredoedd o addoli yn debygol o gynnwys deunydd o arferion a thraddodiadau addoli'r ffydd neu'r enwad penodol y mae'r ysgol yn gysylltiedig â nhw;

⁴ Mae 'addoli ar y cyd' yn golygu dod â phobl sydd â gwahanol safbwytiau a dealltwriaeth at ei gilydd, tra bod 'addoli corfforaethol' yn golygu dod â'r rheiny sy'n rhannu un farn neu weledigaeth ynghyd.

⁵Anfonodd CCYSAGauC mewn cydweithrediad ag AdAS ganllawiau ar y newid deddfwriaeth hwn i bob ysgol yn 2009.

- Dylai'r addoli fod 'ar y cyd' nid yn 'gorfforaethol';
- Gall ysgolion ddefnyddio man addoli lleol ar gyfer rhai o'i gweithredoedd o addoliad lle mae hyn yn briodol;
- Nid oes gan yr ysgolion hawl i ddyfarniad;
- Mae gweithredoedd o addoliad yn wahanol i 'gyfarfod boreol' neu '*assembly*' – sef, yn ôl y gyfraith, unrhyw bryd mae'r ysgol yn cyd-gasglu **ar wahân i** addoli ar y cyd;
- Ers Ionawr 2009, gal dysgwyr ôl-16 ofyn am gael tynnu'n ôl o addoli ar y cyd drostynt eu hunain.

(b) Beth nad yw'r gyfraith yn ei ddweud

Mae dryswch ynglŷn ag addoli ar y cyd yn aml, ac mae'n bwysig gwybod **nad** yw'r gyfraith yn mynnu fod:

- **yr ysgol gyfan** yn dod ynghyd i addoli ar y cyd
[Mae'r gofyniad ar gyfer unrhyw gasgliad o ddysgwyr y mae'r ysgol yn eu dewis, heblaw grwpiau sy'n seiliedig ar ymlyniad crefyddol]
- **yr addoli'n digwydd ar ddechrau'r ysgol** yn y bore
[Yr ysgol ddylai benderfynu pryd yn y diwrnod ysgol mae'r addoli'n digwydd]
- **hyd o amser** arbennig ar gyfer gweithredoedd o addoli
[mater i'r ysgol yw hyd yr addoliad, ond ni ddylai ostwng oriau disgwyliedig y cwrwclwm].

GWEITHREDOEDD POSIBL

Bydd ysgolion sydd o ddifrif ynglŷn â darparu addoli ar y cyd addysgiadol ystyrlon ac effeithiol yn :

- sefydlu egwyddorion, polisiau a rhagleni clir fel sail i'r addoli ar y cyd;
- creu ymdeimlad torfol o 'berchnogaeth' ar addoli ar y cyd;
- canfod cyllid i roi hyfforddiant i staff neu sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol drwy gonsortiwm lleol efallai.

Mae astudiaethau achos sy'n dangos arfer da ac adnoddau defnyddiol ychwanegol ar gael

ar wefan CCYSAGauC: www.wasacre.org.uk

Hawlfraint: Cymdeithas CYSAGau Cymru 2012



Canllawiau i ysgolion mewn cysylltiad â'r

newidiadau mewn deddfwriaeth i

Addoli ar y Cyd Ôl-16

Nodau'r canllawiau

Lluniwyd y canllawiau byr hyn i helpu ysgolion i ddelio â'r ddeddfwriaeth newydd mewn ffordd sy'n cydnabod annibyniaeth gynyddol dysgwyr ôl-16, yn eu galluogi i sylweddoli beth a olygir gan addoli ar y cyd, ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau sy'n gytbwys a chadarn, ac nid yn emosiynol ac arwynebol yn unig.

Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud

Y pethau pwysig i'w nodi o ran y newid hwn yw:

- Mae'r gofyniad statudol ar i ysgolion ddarparu gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd i bob disgylb **yn aros yr un peth**;
- Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion gael eu tynnu'n ôl o addoli ar y cyd, ar gais y rhieni, yn ei le fel y bu ers 1944;
- Yr agwedd newydd yw y gall disgyblion ôl-16 ofyn am gael tynnu'n ôl o addoli ar y cyd **drostynt eu hunain**;
- Mae'r gofyniad statudol fod pob disgylb, yn cynnwys y rheiny mewn lleoliadau Ôl-16(*), yn cael Addysg Grefyddol **yn aros yr un fath**.

Parchu annibyniaeth dysgwyr

Mae'n bwysig sylweddoli **nad yw** cael yr hawl i dynnu'n ôl yn golygu fod **angen** i ddisgyblion dynnu'n ôl o addoli ar y cyd – mae'n golygu'n unig y gallan nhw wneud hynny os ydyn nhw'n teimlo fod ganddynt resymau dros wneud. Felly, yn hytrach nad dim ond cyhoeddi'n blaen fod gan fyfyrwyr yr hawl i dynnu'n ôl erbyn hyn, dylid cael trafodaeth ofalus.

Gwerthfawrogi manteision addoli ar y cyd

Byddai o ddefnydd i ysgolion drafod gyda'r myfyrwyr y cyfraniad y mae addoli ar y cyd yn ei wneud i'w datblygiad ysbrydol a phersonol nhw, a bod disgyblion, trwy addoli ar y cyd yn cael cyfle i:

- Ddathlu'r hyn sy'n bwysig mewn bywyd, a chyfraniadau a llwyddiannau pobl;
- Cyfrannu at weithgaredd sy'n tanlinellu pwysigrwydd ethos ysgol a'i chydlyniant cymdeithasol;
- Bod yn rhan o awyrgylch lle mae myfyrwyr yn rhydd i archwilio a mynegi dimensiwn ysbrydol i fywyd mewn ffordd gadarnhaol a myfyriol;
- Myfyrio, adlewyrchu a phrofi gweddi ac addoliad;

- Edrych y tu hwnt i'r dibwys neu'r cyffredin, eu dyrchafu eu hunain a'u dyheadau, a chael ymdeimlad o weledigaeth ac o obaith;
- (*) Dim ond ar gyfer lleoliadau Ôl-16 a reolir o dan reoliadau ysgolion y mae'r gofyniad statudol
- Sylweddoli fod yna amseroedd anodd ac anawsterau mewn bywyd;
 - Codi eu hymwybyddiaeth o faterion ehangach yn y gymuned ehangach ac yn fydeang;
 - Archwilio a rhannu profiadau o barchedig ofn, rhyfeddod a dirgelion bywyd.

Hybu datblygiad ysbrydol

Mae gan ysgolion ddyletswydd i hybu datblygiad ysbrydol eu disgylion. Byddai'n werthfawr galluogi myfyrwyr i ddeall nad yw datblygiad ysbrydol neu ysbrydolwydd yr un peth â bod yn grefyddol, ond ei fod yn ymwneud â'r broses o ddatblygu eu meddwl a'u dealltwriaeth eu hunain am fywyd a materion ehangach ystyr, pwrpas a chyflawniad.

Dylid helpu'r myfyrwyr hefyd i werthfawrogi fod addoli ar y cyd yn:

- Darparu amser arbennig i ffwrdd o weithgareddau ysgol arferol;
- Cefnogi profiadau sy'n canolbwytio ar y dysgwyr, ac yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o'u safle o fewn y darlun mawr;
- Datblygu gallu'r dysgwyr i fyfrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau;
- Datblygu ymwybyddiaeth y dysgwyr o'r bywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- Archwilio ac annog ymateb i gwestiynau mawr am ystyr bywyd, newid a marwolaeth.

Manteision i'r ysgol gyfan fod y chweched dosbarth yn cymryd rhan

Gan ystyried yr uchod, a chan ystyried oedran y myfyrwyr mewn lleoliadau ôl-16, mae ganddynt lawer i'w ennill o gael gweithredoedd ystyriol a gwerthfawr o addoli ar y cyd; mae ganddynt lawer i'w roi hefyd drwy gyflwyno a chyfrannu at yr addoli. Byddai'n golled fawr felly pe bai'r cyfleoedd hyn i gyd yn cael eu hildio'n ysgafn ac yn ddifeddwli.

Crynodeb

Dylai ysgolion:

- Wybod y gofynion cyfreithiol
- Canolbwytio ar alluogi annibyniaeth y dysgwyr drwy drafodaethau cytbwys a fydd yn eu galluogi i:
 - Ystyried manteision addoli ar y cyd
 - Deall y cyd-destun o safbwyt datblygiad ysbrydol
 - Sylweddoli'n llawn y materion a'r canlyniadau



WASACRE GUIDANCE ON THE WITHDRAWAL OF PUPILS FROM COLLECTIVE WORSHIP

Enshrined in the 1944 Education Act, and in every Education Act since then, is the requirement that every school must provide an act of Collective Worship each day in which every pupil under 16 years of age must participate. That Act of Collective Worship should be mainly Christian in character unless a determination by the local SACRE has provided otherwise. (*(1)Subject to section 71, each pupil in attendance at a community, foundation or voluntary school shall on each school day take part in an act of collective worship.* - *School Standards Framework 1998, section 70*). The only exception to this requirement is when the parent(s) of a pupil under 16 has requested in writing that their child be withdrawn from the school's act of collective worship, and the school must comply with any such request. The provision for post-16 pupils in schools to withdraw themselves from Collective Worship was made by The Education and Inspections Bill 2006 and this legislation was brought into force in Wales in February 2009. At that time WASACRE, in association with DCELLS, provided advice to secondary schools on how best to manage this provision. A paper *Guidance to schools in relation to the changes in legislation for Post-16 Collective Worship* was circulated at the time of the change.

It should be noted that the term “assembly” is never used within the wording of the Education Acts, instead the term used is “collective worship” which is seen as part of a school’s balanced and broadly based curriculum.

In June 2012 WASACRE produced and circulated a further paper on Collective Worship, *Guidance on Collective Worship*. This paper spelt out the benefits of collective worship and provided guidance on what the law really says about collective worship in maintained schools without a religious character as well as in maintained schools with a religious character. The paper also set out what the law does not say about collective worship in an attempt to clear up any misconceptions about collective worship requirements.

Parents’ right of withdrawal of pupils from Collective Worship

Nothing in the Education Act 1993 affects parents’ rights, as established in the 1944 Act and re-enacted in the 1988 Act, to withdraw their children from collective worship if they wish.

